# Rhyddhau grym bwyd Cymru

Maniffesto FareShare Cymru ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026

FareShare Cymru

# Rhagair

**Yn FareShare,** rydym yn credu'n angerddol yng ngrym bwyd. Rydym yn gweld y gwahaniaeth y mae bwyd yn ei wneud bob un diwrnod o fewn cymunedau: dod â phobl ynghyd, creu cyfleoedd, newid bywydau.

Mae ein gwaith yn dechrau o'r angen i fynd i'r afael â phroblem gwastraff bwyd. Yn fyd-eang, mae bwyd gwastraff yn achosi tair gwaith cymaint o nwyon tŷ gwydr â'r diwydiant awyrennau yn ei gyfanrwydd. Gallwn droi'r broblem hon yn gyfle, gan sicrhau fod bwyd sy'n dda i'w fwyta yn cael ei anfon i'r mannau ble mae ei angen fwyaf.

Mae'r maniffesto hwn yn nodi ein galwad i weithredu ar gyfer pob plaid yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai.

FareShare Cymru yw'r arweinydd yng Nghymru o ran ailddosbarthu bwyd sydd dros ben. Y llynedd, bu'n gyfrifol am ddosbarthu mwy na 3 miliwn o brydau bwyd trwy gyfrwng mwy na 250 o elusennau a grwpiau cymunedol yng Nghymru.
Mae llawer o'r rheini yn y rheng flaen parthed argyfwng costau byw, gan helpu pobl sy'n wynebu gwneud y dewis echrydus rhwng gwresogi a bwyta. Ni ddylai hynny fod yn benderfyniad y mae'n rhaid i unrhyw un ei wynebu yng Nghymru.

Bydd FareShare Cymru bob amser yn rhoi urddas wrth wraidd ein gwaith. Mae'r elusennau rydyn ni'n eu cefnogi yn helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi neu unigedd pobl, yn ogystal â diwallu eu hanghenion uniongyrchol.

Rydyn ni'n gwybod bod llawer mwy y gallwn ni ei wneud. Ar lefel y DU, rydyn ni'n adeiladu elusen genedlaethol newydd trwy uno FareShare UK a Phrosiect Felix, er mwyn cynyddu ein heffaith. Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu i ryddhau mwy o fwyd dros ben a sicrhau bod cymunedau'n derbyn cefnogaeth dda, ac i'n helpu ni i gyrraedd ein targedau uchelgeisiol i leihau gwastraff bwyd yma yng Nghymru.

Rydyn ni'n galw ar bob plaid yn etholiadau'r Senedd i'n cefnogi yn ein cenhadaeth. Rydyn ni'n barod i ryddhau grym bwyd yng Nghymru; a gallwch chi ein helpu ni.



**Sarah Germain**
**Prif Swyddog Gweithredol, FareShare Cymru**



**Kris Gibbon-Walsh**
**Prif Swyddog Gweithredol, FareShareUK**

# Mae FareShare Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

## Ymladd yn erbyn Gwastraff Bwyd

- Dull cadwyn gyflenwi gyfan ar gyfer targedau gwastraff bwyd.
- Parhau â chynllun FareShare o'r enw Bwyd dros ben ag amcan, gan wreiddio'r dull hwn yn y gefnogaeth ehangach sydd i'r system fwyd.
- Sicrhau bod ailddosbarthu bwyd sydd dros ben wedi'i gynnwys mewn strategaethau bwyd ac economi gylchol.
- Gofyn i fusnesau bwyd adrodd am y bwyd sydd ganddynt dros ben a'r bwyd sy'n cael ei wastraffu.
- Egluro diogelwch cyfreithiol ynghylch ailddosbarthu bwyd.

## Adeiladu Cymunedau Cryfach

- Hybu incwm y cartref trwy waith teg a nawdd cymdeithasol.
- Sicrhau y gall pobl gael mynediad at fwyd mewn modd urddasol pan fyddant yn mynd i argyfwng.
- Cefnogi FareBoost, sef rhaglen gyflogadwyedd FareShare, ac archwilio sut y gellid ehangu ar hyn.
- Parhau i gefnogi FareShare Cymru a gweithio gyda chynghorau i sicrhau bod y sector bwyd cymunedol yn derbyn cefnogaeth dda.



# Pwy ydym ni?

FareShare yw prif elusen ailddosbarthu bwyd y DU, gan harneisio grym bwyd er mwyn newid bywydau.

Gan weithio yng Nghymru fel FareShare Cymru, rydym yn cefnogi mwy na 250 o elusennau i gryfhau cymunedau a sicrhau nad oes unrhyw fwyd da yn mynd i wastraff. Y llynedd, arweiniodd hynny at ddosbarthu mwy na 3 miliwn o brydau bwyd – bwyd a fyddai wedi costio £3.7 miliwn i'w brynu.

# Yr hyn yr ydym ei eisiau

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ymuno â ni i:

- **Ymladd yn erbyn gwastraff bwyd**
- **Adeiladu cymunedau cryfach.**

## Pam mae hyn yn bwysig

Mae bwyd yn hawl ddynol, ond mae cymaint ag un o bob pum oedolyn yng Nghymru wedi cael profiad o ansicrwydd bwyd ac mae bron i chwarter yn nodi eu bod wedi hepgor prydau bwyd neu wedi bwyta llai oherwydd caledi ariannol.

Ar yr un pryd, mae miloedd o dunelli o fwyd bwytadwy yn cael ei daflu i ffwrdd bob blwyddyn cyn iddo gyrraedd bagiau siopa pobl.

Mae WRAP, sef arbenigwyr ar wastraff bwyd, yn amcangyfrif y gallai darparu cefnogaeth gryfach i ailddosbarthu bwyd yng Nghymru leihau gwastraff bwyd yng Nghymru o 7,000 tunnell y flwyddyn. Byddai hynny'n ddigon i wneud 16 miliwn o brydau bwyd.

Gall ailddosbarthu'r bwyd hwn drawsnewid bywydau, gan amddiffyn y blaned a sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ein partneriaid elusennol yn gwneud llawer mwy na bwydo pobl, boed hynny drwy gynnig cyngor ariannol, darparu gofal plant, cefnogi dietau iachach neu leihau neu ynysu. Mae hyn i gyd yn hanfodol ar gyfer creu Cymru decach, hapusach a mwy cynaliadwy.

Mae pobl sy'n derbyn cefnogaeth gan ein partneriaid elusennol yn dweud wrthym eu bod yn bwyta bwyd mwy maethlon, yn hepgor llai o brydau bwyd, yn teimlo'n iachach ac yn profi ymdeimlad cryfach o gysylltiad â'u cymunedau.

Drwy fabwysiadu polisïau sy'n cefnogi ailddosbarthu bwyd sydd dros ben, gall Llywodraeth nesaf Cymru helpu i leihau effaith amgylcheddol, gwella mynediad pobl at fwyd da, a sicrhau cymunedau lleol cryfach.








# Ymladd yn erbyn gwastraff bwyd

## Mabwysiadu dull system gyfan o fynd i'r afael â gwastraff bwyd

Gall Cymru gyflawni ei tharged Mwy Nag Ailgylchu i leihau gwastraff bwyd y gellir ei osgoi erbyn 2030, ond dim ond os yw'n cymryd camau beiddgar nawr. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ganolbwyntio ar y gofynion uchelgeisiol sydd ym Map Llwybr Gwastraff Bwyd WRAP Cymru, gan osod disgwyliadau clir ar bob rhan o'r gadwyn gyflenwi, er mwyn cyflawni'r disgwyliadau hyn. Dylai hyn hefyd gynnwys ymestyn cwmpas y targedau a'r Map Llwybr i gynnwys ffermydd a chynhyrchwyr cynradd yn ogystal.

## Gwreiddio'r Cymorth Ailddosbarthu Bwyd Dros Ben

Rydym yn gwybod ei bod yn llawer gwell os yw bwyd dros ben yn bwydo pobl, yn hytrach na bwydo anifeiliaid neu gyfleusterau biowastraff, ond mae cael bwyd i bobl yn costio mwy. Mae menter FareShare o'r enw Bwyd dros ben ag amcan yn gynllun cymhorthdal y profwyd ei fod yn darparu mwy o degwch i ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd, fel y gallant wneud y defnydd gorau o'u bwyd sydd dros ben.

Mae Llywodraeth bresennol Cymru wedi cefnogi FareShare Cymru i gyflawni cynllun Bwyd dros ben ag amcan sydd â'r nod o leihau'r rhwystrau i ailddosbarthu bwyd sydd dros ben. Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i barhau i gefnogi'r cynllun hwn, wrth weithio tuag at ei ymgorffori o fewn cynlluniau ar gyfer cefnogi system fwyd ehangach, yn ogystal â'i gynnwys yn rhan o ddiwygiadau i gymorthdaliadau amaethyddol, megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Yn ogystal, rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i greu cronfa Gweithgynhyrchu a Lletygarwch sy'n cefnogi arloesedd ac a fyddai yn helpu i ddatgloi bwyd dros ben sy'n anoddach cael gafael ynddo.

Byddem hefyd yn galw am wreiddio ailddosbarthu bwyd dros ben yn rhan o unrhyw Strategaeth Fwyd a Strategaeth Economi Gylchol gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

## Cyflawni adrodd gorfodol ystyrlon

Mae Map Llwybr Gwastraff Bwyd Cymru yn cefnogi adrodd gorfodol ar fwyd dros ben a gwastraff bwyd. Gellid cyflawni hyn yn gyflym. Er y gallai fod yn briodol gweithredu dull cymesur, yn dibynnu ar faint a natur gwahanol fusnesau, ni ddylai cwmpas unrhyw reoliadau fod yn rhy gul, neu ni fyddant yn cyflawni fawr ddim newid gwirioneddol. Bydd hefyd yn bwysig cyd-fynd â'r gofynion adrodd yn Lloegr a'r Alban, lle bynnag y bo modd gwneud hynny.



## Egluro diogelwch cyfreithiol ynghylch defnyddio bwyd dros ben

Er bod llawer o fusnesau wedi cofleidio'r cyfle i gyfrannu bwyd dros ben, mae rhai wedi lleisio pryderon ynghylch y goblygiadau cyfreithiol posibl o wneud hynny, gan fod cyfreithiau diogelwch bwyd yn parhau'n berthnasol pan mae cwmnïau yn cyfrannu bwyd. Gallai canfod eu bod yn agored i gamau cyfreithiol fod yn rhwystr i gwmnïau a fyddai fel arall yn fodlon cyfrannu eu bwyd sydd dros ben. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gefnogi'r gwaith parhaus a wneir gan WRAP a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sydd â'r nod o egluro'r diogelwch cyfreithiol presennol.

# Adeiladu cymunedau cryfach

## Dod â'r angen am fanciau bwyd i ben

Mae FareShare yn cwrdd â phobl lle bynnag y maen nhw, a chyhyd â bod pobl yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at fwyd iach a fforddiadwy, byddwn yn parhau i'w cefnogi. Fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw ailddosbarthu bwyd yn ateb parhaol i ansicrwydd bwyd, gan nad yw yn mynd i'r afael ag achosion tlodi, ynddo'i hun. Dyna pam mae'r hyn a wnawn yn ymwneud â llawer mwy na darparu bwyd. Rydym yn cefnogi gwasanaethau cyfannol mewn cymunedau lleol sy'n gweithio i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithio i hybu incwm aelwydydd trwy waith teg a nawdd cymdeithasol a sicrhau y gall pobl gael mynediad at fwyd mewn modd urddasol, pan fyddant yn mynd i argyfwng.

## Cefnogi'r sector bwyd cymunedol

Dylid dathlu sector bwyd cymunedol amrywiol Cymru am ei rôl wrth gryfhau a chreu cymunedau cydlynol. Mae sefydliadau ar lawr gwlad sydd wedi'u gwreiddio mewn cymunedau yn hanfodol er mwyn creu ymgyrch i sicrhau bwyd da a chefnogi'r bobl sydd ei angen fwyaf. Fodd bynnag, mae gormod o sefydliadau yn cael trafferth gyda'r gost, cyllid prin a'r galw cynyddol. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru barhau i gefnogi FareShare Cymru a gweithio gyda chynghorau i sicrhau bod cefnogaeth briodol yn bodoli ar gyfer cynnal a sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r sector bwyd cymunedol.

## Cefnogi sgiliau a phrentisiaethau

Mae prinder sgiliau ledled y gadwyn gyflenwi bwyd yn niweidio cynhyrchiant a chystadleurwydd y sector ac mae hefyd yn cyfrannu at gynnydd mewn gwastraff bwyd. Mae FareShare wedi datblygu partneriaethau cyflogadwyedd cenedlaethol o fewn y diwydiant bwyd, er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn. Ar hyn o bryd mae FareShare Cymru yn darparu rhaglen gyflogadwyedd o'r enw FareBoost, ac mae hefyd yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau i'w wirfoddolwyr. Rydym am weithio gyda Llywodraeth nesaf Cymru i archwilio sut y gellid ehangu ar hyn a'i dargedu'n fwyaf effeithiol at ardaloedd sy'n cael blaenoriaeth ar sail eu hanweithgarwch economaidd, a hefyd gweithio i adeiladu Economi Werdd. Yn ogystal, gallai gwneud diwygiadau i'r ardoll brentisiaethau fod o fudd i fwy o bobl, er enghraifft trwy alluogi prentisiaethau byrrach a mwy hyblyg, a dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i gyflawni hyn.




## Cysylltu



**Sarah Germain**
**FareShare Cymru**
sarah@fareshare.cymru